



Ein cyf/Our ref MA/VG/5935/19

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

7 Ionawr 2020

Annwyl Dai,

Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: Trafodion Cyfnod 2 Bil y GIG (Indemniadau) (Cymru)

Rwyf yn cyfeirio at Fil y GIG (Indemniadau) (Cymru) a gwblhaodd drafodion Cyfnod 2 ar 11 Rhagfyr.

Trafodwyd y gwelliant arfaethedig, a gyflwynwyd gan Angela Burns i baratoi a chyhoeddi adroddiad ar effaith y Ddeddf. Yn dilyn trafodaethau ac ymrwymadau a wneuthum mewn perthynas ag adrodd ar effaith y cynllun (a amlinellir isod er hwylustod) tynnodd Angela Burns y gwelliant yn ôl.

Amlinellais y byddai'r gwelliant arfaethedig, fel y'i drafftwyd, yn canolbwyntio ar y Cynllun Atebolrwyddau Presennol, -sut bynnag mae Cynllun Atebolrwyddau'r Dyfodol eisoes yn ei le ac nad oes gofyniad adrodd ar gyfer hwnnw. Ymhellach, amlinellais na fyddai adroddiad gan Lywodraeth Cymru'n darparu'r darlun ehangach i'r Pwyllgor graffu ar effaith y cynllun. Amlinellais hefyd y gallai adroddiad ar weithrediad technegol y cynllun a gefnogir gan y wladwriaeth (i gynnwys Cynllun Atebolrwyddau'r Dyfodol a'r Cynllun Atebolrwyddau Presennol) gael ei wneud ar ddiwedd pob blwyddyn, am yr ychydig flynyddoedd cyntaf tra bo'r cynllun yn ennill ei blwyf ac mai mater i'r Pwyllgor fyddai penderfynu a ddylai gynnal ymarfer craffu ehangach a gwahodd tystion i lywio'r gwaith craffu hwn.

yn unol â hynny, caiff y trefniadau adrodd canlynol eu sefydlu. O Ebrill 2021, caiff adroddiad blynyddol ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynulliad perthnasol. Bydd yr adroddiad yn ymdrin â gweithrediad technegol y FLS a'r ELS ac fe gaiff ei lywio gan Ymarferwyr Cyffredinol a rhanddeiliaid allweddol eraill, sefydliadau amddiffyn meddygol, GIG Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - Gwasanaethau Cyfreithiol a Risg, sy'n gweithredu Cynllun Atebolrwyddau'r Dyfodol a bydd yn ysgwyddo'r gwaith o ymdrin â hawliadau yn achos y Cynllun Atebolrwyddau Presennol yn unol â threfniadau ELS rhwng Llywodraeth Cymru a sefydliadau amddiffyn meddygol. Bydd yr adroddiad blynyddol hefyd yn amlinellu'r ELS y cytunwyd arnynt rhwng Llywodraeth Cymru a sefydliadau amddiffyn meddygol a'r ffordd y mae'r cynllun wedi'i weithredu ynghyd ag effaith ariannol y trefniadau ELS, yn ddarostyngedig i lynu at gytundebau cyfrinachedd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r Memorandwm Esboniadol diwygiedig a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'u gosod gerbron y Cynulliad heddiw. Rwyf wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn amlinellu'r newidiadau a wnaed i'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn ymateb i adroddiad Cyfnod 1. Byddwch am nodi'r diwygiadau i adran ôl-weithredu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ym mharagraff 4.18 i dynnu sylw at y bwriad i gynhyrchu'r adroddiadau yr wyf wedi'u hamlinellu uchod.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Vaughan Gething". The signature is written in a cursive, flowing style.

Vaughan Gething AC/AM

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services